**CYNGOR CYMUNED DYFFRYN ARTH**

**Protocol Datrysiadau Lleol**

| |
|---|
| Mabwysiadwyd gan y Cyngor ar 12 Mai 2022 |

Mae'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi cytuno â'r egwyddor y dylid cyfeirio rhai cwynion yn erbyn Aelodau yn ôl i Gynghorau Tref a Chymuned i'w datrys yn lleol.

Dylid nodi nad yw'r Protocol hwn yn cyfeirio at gwynion oddi wrth y cyhoedd a delir â'r rhain drwy Polisi Cwynion y Cyngor.

## Y Broses Datrysiad Lleol

### Materion caiff eu hystyried o dan y broses hon

Cwynion lefel isel am Aelodau, gan gynnwys:

• Mân gwynion gan Aelodau am Aelodau

• Mân gwynion gan Swyddogion am Aelodau

• Aelodau yr honnir iddynt fethu dangos parch ac ystyriaeth i eraill – naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig

### Materion <u>na chaiff</u> eu hystyried o dan y broses hon

Mae'r cwynion y mae'n rhaid eu cyfeirio at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cynnwys:

• Cwynion a wneir gan aelod o'r cyhoedd

• Cwynion difrifol – torri'r Cod Ymddygiad/methiant i ddatgelu buddiannau/bwlïo/camddefnyddio swydd neu ymddiriedaeth/torri'r Cod dro ar ôl tro

• Cwynion a wnaed gan y Clerc/Swyddog Priodol

• Cwynion blinderus, maleisus neu wamal

• Cwynion Aelodau am swyddogion, y dylid delio â nhw trwy ddefnyddio proses cwynion mewnol y Cyngor

• Cwynion lefel isel ailadroddus

## Y Broses

## Y gŵyn

Dylid anfon y gŵyn at Glerc y Cyngor i gynnal didoliad cychwynnol i sicrhau fod y gŵyn ar lefel isel ac na ddylid delio â hi trwy gyflwyno cwyn i'r Ombwdsmon. Felly, os yn briodol, dylai'r Clerc geisio yn y lle cyntaf i gael datrysiad cynnar i unrhyw anghydfod o'r fath trwy drafod yn anffurfiol gyda'r Aelodau unigol dan sylw cyn symud at y broses ddatrys a ddisgrifir isod.  Rhoddir manylion llawn am y gŵyn yn eu herbyn i'r Aelod 'cyhuddedig' fel eu bod yn enw cyfiawnder naturiol mewn sefyllfa i baratoi eu hymateb i'r cyhuddiad.

## Proses Datrysiad

*(Rôl Cadeirydd/Is Gadeirydd y Cyngor yn y broses ganlynol yw peidio dyfarnu ar y gŵyn, ond yn hytrach ceisio cael yr Aelodau/swyddogion dan sylw i gytuno sut ellid datrys y mater(ion) mewn ffordd gyfeillgar.)*

Bydd y Clerc yn gweithredu'n hwylusydd ar gyfer y broses ddatrys isod. Fe fydd y drafodaeth rhwng unigolion ymhob achos yn cael ei gofnodi gan berson perthnasol.

Os yw'r gŵyn rhwng Aelodau ac eithrio Cadeirydd y Cyngor, bydd y Clerc a'r Cadeirydd yn cyfarfod yn unigol â'r achwynydd a'r Aelod y gwnaed y gŵyn yn ei erbyn/herbyn i geisio cael datrysiad y gall pawb gytuno arno.

Os yw'r gŵyn rhwng Aelodau, ac os yw un ohonynt yn Gadeirydd y Cyngor, ond nid yr Is Gadeirydd, bydd y Clerc a'r Is Gadeirydd yn cyfarfod â'r achwynydd a'r Aelod y gwnaed y gŵyn yn ei erbyn/herbyn i geisio cael datrysiad y gall pawb gytuno arno.

Os gwnaed y gŵyn gan swyddog/gweithiwr, ond nid y Clerc, yn erbyn Aelod ac eithrio Cadeirydd y Cyngor, bydd y Clerc a Chadeirydd y Cyngor yn cyfarfod â'r swyddog a'r Aelod y gwnaed y gŵyn yn ei erbyn/herbyn i geisio cael datrysiad y gall pawb gytuno arno.

Os gwnaed y gŵyn gan swyddog/gweithiwr, ond nid y Clerc, yn erbyn Cadeirydd y Cyngor, bydd y Clerc ac Is Gadeirydd y Cyngor yn cyfarfod â'r swyddog a'r Cadeirydd i geisio cael datrysiad y gall pawb gytuno arno.

Os gwnaed y gŵyn gan y Clerc, fe anfonir y gŵyn ymlaen ar ffurf cŵyn at yr Ombwdsmon.

**Canlyniadau posib y broses**

Os ceir cytundeb gan Aelodau a/neu swyddogion yn ystod y cam hwn nid oes angen cymryd unrhyw gamau eraill.

Os na ellir cael cytundeb byddai gan yr Aelod/swyddog a wnaeth y gŵyn y cyfle o hyd i gyfeirio'r mater at yr Ombwdsmon.

(Gallai enghreifftiau o gytundebau gynnwys llythyr yn ymddiheuro, addewid neu ymrwymiad ysgrifenedig i beidio torri'r Cod Ymddygiad yn y dyfodol, ymrwymiad i dderbyn hyfforddiant neu gytundeb na ddylid, ar sail y dystiolaeth, cymryd unrhyw gamau pellach ac y dylid cau'r mater.)

**Amser ar gyfer y broses**

Y bwriad yw cwblhau'r holl brosesau cyn gyflymed ag y bo modd er mwyn datrys y mater. Fodd bynnag, bydd yr union gyfnod o amser yn dibynnu ar argaeledd unigolion i ddod i'r cyfarfodydd.